

Gras

Darlleniad: Effesiaid 2: 1-10

‘Arglwydd grasol, dy haelioni sy’n ymlifo trwy y byd,’ ac fe ddown atat heddiw i gydnabod yn ddiolchgar y gras arbennig sydd ynot ti. Cawsom ein dysgu mai at orsedd rasol y byddwn yn troi wrth weddio, a diolchwn yn awr am hynny.

Diolch am y sicrwydd dy fod ti yn un sy’n teyrnasu. Yr ydym yn rhyfeddu wrth glywed gan y gwyddonwyr am ehangder y bydysawd ac am gymhlethdod a chywreinrwydd y cwbl, ac ofni y byddem heb wybod am ôl dy fysedd grasol di yn y llunio a’r cynnal. Nid oes un rhan o’r greadigaeth y tu hwnt i’th sylw nac un agwedd o fywyd dynoliaeth na byd nad yw’n dianc o’th ymwneud.

Diolchwn mai yn unol â’th ras yr wyt yn arglwyddiaethu drosom. Mewn byd o deyrnasu anghyfiawn, gyda gormes a grym yn cael y trechaf, ac anhrefn ac anobaith yn rhemp, diolch am y sicrwydd mai trugaredd sy’n rheoli’r bydysawd ac mai cariad anhaeddiannol sy’n delio â dynoliaeth.

Cofiw’n fod dy ras di wedi ei amlygu i ni yn Iesu. Yr un a ddaeth atom yn llawn gras a gwirionedd, a ninnau’n cael derbyn o’i gyflawnder ef, gras ar ôl gras.

Dyma’r gras a fynodd fod y tlodion yn cael clywed y newydd da. Y gras oedd yn ceisio ac yn cadw’r colledig. Y gras oedd yn cyffwrdd ac yn iacháu. Y gras oedd yn cofleidio ac yn derbyn. Y gras oedd am ryddhau dyledwyr a maddau i bechaduriaid. Y gras oedd yn agor drysau’r deyrnas i’r gwrthodedig a’r dirmygedig.

Yn arbennig, Arglwydd, cofiw’n am ras Calfaria. Y gras a dderbyniodd y cwpan a’i yfed i’r gwaelod. Y gras a weddiodd am faddeuant i’w wrthwynebwy ac a ddioddefodd drostynt. Y gras a dywalltodd ei fywyd yn aberth dros ddynoliaeth.

Yr oedd yn gyfoethog, ond fe ddaeth yn dlawd drosom, er mwyn i ni ddod yn gyfoethog trwy ei dlodi ef. Ef yn wir yw rhodd dy ras i ni.

Diolchwn, O! Dduw, am dy ras di yn ei atgyfodi ar y trydydd dydd a'th addewid mai ef yw'r blaenffrwyth, yr Adda diwethaf, y cyntaf-anedig o blith y meirw, i fod ei hun yn gyntaf ymhob peth.

Y mae helaethrwydd dy ras y tu hwnt i'n deall, Arglwydd, ond gwyddom mai mewn gras yn unig y mae gwir fywyd, yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod.

Gweddiwn am barhad gwaith gras arnom, ac am i ninnau ymdrechu i roi'r cyfle iddo i'n gwneud yn wir blant i ti. Dymunwn gael ein llenwi â gras, fel y gallwn fod yn rasol yn ein hymwneud ag eraill. Yn union fel yr wyt ti'n peri i'th haul godi ar y drwg a'r da, ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn, cynorthwya ni i weithredu heb ffafriaeth, i fod yn garedig hyd yn oed wrth yr anniolchgar a'r drygionus ac i fod yn drugarog, fel yr wyt ti'n drugarog.

Uwchlaw popeth, Arglwydd, gwna ni'n rymus i gyhoeddi efengyl gras Duw, er mwyn rhoi bywyd i'r byd, a bydded i ni fod yn ymwybodol ym mhob amgylchiad, fod gras ein Harglwydd Iesu Grist gyda ni bob amser. Amen.

Robin Samuel